



Astudiaeth achos Meithrinfa Ddydd Little Lambs

Mae lleoliad gwaith yn rhan hanfodol o hyfforddiant a chymwysterau ymarferwyr. Mae rhai hyfforddeion hyd yn oed yn llwyddo i sicrhau swydd o ganlyniad i brofiadau cadarnhaol mewn lleoliad gofal plant. Rydym wedi penodi nifer o staff o ganlyniad i leoliadau gwaith. Yn wir, fe wnaeth un o reolwyr y feithrinfa gychwyn ei gyrfa gyda Little Lambs fel myfyrwraig a chodi'r rhengoedd dros y blynyddoedd nes cael ei phenodi'n rheolwr y feithrinfa.

Arhosom ni ar agor yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020. Roedd yn amser anodd iawn ac mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i ni gyd. Fodd bynnag, roedd modd i ni barhau i gynig gofal plant i weithwyr allweddol, yn ogystal â chynnig swyddi yn ôl i'n holl staff wrth i'r misoedd fynd yn eu blaenau. I ni, canolbwynt ein llwyddiant yw cyfathrebu a pharatoi.

Rhoesom y mwyafrif o'n staff ar ffyrlo a dim ond pedwar aelod o staff oedd gennym ar gychwyn y cyfnod clo gan mai niferoedd bychan oedd yn mynychu'r lleoliad. Yn ystod ffyrlo staff, roeddem yn gyrru e-byst a diweddariadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o newidiadau i ganllawiau a chynlluniau'r llywodraeth. Anfonon ni holiaduron i staff cyn iddynt ddychwelyd er mwyn archwilio eu llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol. Roedd yn bwysig i ni gadarnhau bod staff yn barod i ddychwelyd ac yn teimlo'n ddigon cyfforddus i wneud hynny. Cyfathrebon ni yn gyson gyda rhieni wrth i ni ddechrau croesawu mwy o deuluoedd a theuluoedd yn ôl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn ymwybodol o ymarferion a gweithdrefnau newydd.

Er mwyn sicrhau diogelwch ein holl staff, plant a theuluoedd, roedd yn rhaid i ni gyflwyno nifer o ymarferion a gweithdrefnau. Gwnaethom egluro rhain i'n holl deuluoedd a staff yn fanwl drwy e-bost, ar gyfryngau cymdeithasol a drwy ap ein meithrinfa.

Mae'r ymarferion yn cynnwys:

- rhieni'n gollwng ac yn casglu wrth y drws ffrynt, ac wedi'u hysbysu nad ydyn nhw'n cael mynd i mewn i'r lleoliad
- mae glanweithydd dwylo wrth y mynediad i'r holl blant, staff ac ymwelwyr
- mae staff yn cael eu rhoi mewn ystafelloedd penodol ac yn gweithio gyda'r un grwpiau bob dydd lle bo angen
- timau bach o staff sy'n defnyddio'r ystafell staff yn ystod amser bwyd
- mae archwiliadau o'r feithrinfa yn digwydd dros Zoom
- cyfweliadau staff dros Zoom.

Yn ogystal â chyfweld staff dros Zoom, rydym hefyd yn cynnal sesiynau "cwrdd a chyfarch" dros Zoom – byddai'r rhain wedi'u cynnal yn y feithrinfa dan amgylchiadau arferol. Mae hyn yn ein galluogi i drafod arferion y lleoliad, cwblhau asesiad risg dros y we cyn i'r myfyriwr gyrraedd yr adeilad, egluro'r dulliau ymarfer yr ydym yn ei ddisgwyl gan y myfyriwr, ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt ac yna cynllunio pryd y byddant yn dod i'r lleoliad a chadarnhau'r amseroedd a'r grwpiau oedran sydd angen eu cynnwys ar gyfer eu cymhwyster. Mae gennym ddisgwyliadau clir o'r hyn a ddisgwylir gan ein staff a'n myfyrwyr wrth iddynt weithio yn Little Lambs ac rydym yn sicrhau eu bod yn

cael eu cyfleu i bawb.

Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn dilyn yr un arferion a gweithdrefnau er mwyn cefnogi'r frwydr gyson yn erbyn coronafeirws a'u bod yn dilyn canllawiau'r llywodraeth, yn ogystal â chanllawiau'r awdurdodau lleol. Rydym yn hysbysu staff a myfyrwyr o unrhyw newidiadau dros e-byst, felly mae angen i'r myfyrwyr sicrhau eu bod yn rhoi'r manylion cyswllt cywir i ni, yn ogystal ag edrych ar eu e-byst yn rheolaidd.

Cyfathrebwn ni gyda cholegau yn gynnar er mwyn gallu cefnogi myfyrwyr i barhau gyda lleoliadau dysgu, gan ein bod yn teimlo bod lleoliadau myfyrwyr yn bwysig i gefnogi gweithlu'r dyfodol. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn dilyn unrhyw weithdrefnau, boed hynny yn y lleoliad neu'n gymdeithasol er mwyn sicrhau nad oes perygl i coronafeirws ddod i'r lleoliad. Rydym yn gwerthfawrogi ein bod o bosib yn gofyn llawer gan fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae ysgolion a lleoliadau hefyd yn ceisio cadw swm sylweddol o bobl yn ddiogel ac mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n dod i mewn i'n hadeilad ni yn gwarchod pawb. Fel y dywedon ni eisoes, mae cyfathrebu a pharatoi yn allweddol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a lleoliadau yn medru cydweithio'n effeithiol er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

Mae myfyrwyr angen paratoi ar gyfer ein disgwyliadau ohonyn nhw. Dylai lleoliadau ac ysgolion adael iddyn nhw wybod beth sydd ei angen arnynt a pham eu bod angen y rheiny. Gall asesiadau risg a sgysiau rhithiol ddigwydd cyn y lleoliad dysgu er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r lleoliad a galluogi'r lleoliad dysgu i ddechrau yn gynt yn hytrach na'n hwyrach. Os cyfathrebwn yn y modd hwn gall myfyrwyr gael profiadau cyffrous a llwyddiannus a gall lleoliadau ennill gweithlu ychwanegol medrus i'w cefnogi yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Gall lleoliadau dysgu o safon uchel arwain at ystod o ganlyniadau cadarnhaol a buddiannau. Mae lleoliadau gwaith o fewn y sector gofal plant yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr ennill sgiliau priodol i'r rôl a dangos iddynt yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonyn nhw o fewn y byd gwaith gwirioneddol yn y sector gofal plant. Os na ddarparwn ni y profiadau hyn i'r myfyrwyr gael budd ohonynt, nid ydym yn cefnogi gweithlu'r dyfodol. Gosodwch eich canllawiau, cyfathrebwch a pharatowch, a chefnogwch weithlu'r dyfodol i ennill profiad sydd mor bwysig, gwerthfawr a hanfodol i'w datblygiad pellach a'u haelodaeth â'r sector gofal plant.

Mae angen pob cymorth arnom i ddiogelu ein sector at y dyfodol, felly byddwch y newid yn eich cymuned.